

Archifau Morgannwg



DARGANFOD Y GORFFENNOL

1 Mawrth 2017- 28 Chwefror 2018



Croeso i'n 8fed Adroddiad Blynyddol sy'n disgrifio gweithgareddau Archifau Morgannwg yn ystod y cyfnod o 1 Mawrth 2017 hyd at 28 Chwefror 2018

Bu'n flwyddyn brysur a chynhyrchiol arall i Archifau Morgannwg. Mae catalogau wedi cael eu gwella, mae partneriaethau presennol wedi cael eu datblygu a phartneriaethau newydd eu creu, ac mae cysylltiadau cenedlaethol a rhyngwladol wedi cael eu datblygu.

Glamorgan's Blood: Dark Arteries, Old Veins yw'r project a ariennir gan Ymddiriedolaeth Wellcome i gatalogio a chadw cofnodion y Bwrdd Glo Cenedlaethol. Tarddiad teitl y project yw cerdd gan Mervyn Peake o'r enw Rhondda Valley ac mae'r casgliad, sy'n cynnwys dros 50 o dderbynion gwahanol, yn adnodd amhrisiadwy ar gyfer hanes rhannau diwydiannol de Cymru a'u cymunedau. Mae derbynion a restrwyd gan yr Archifydd Prosiect, Louise Clarke, wedi cael eu hychwanegu at y catalog ar-lein, Canfod. Mae'r deunydd sydd wedi'i gatalogio yn cynnwys streiciau a gweithredu diwydiannol, mwyngloddio brig, cynlluniau ad-drefnu a chlefydau a damweiniau diwydiannol. Mae ffeiliau'r ymchwiliad i drychineb Aberfan wedi cael eu rhestru. Ym mis Medi daeth Stephanie Jameson i ymuno â Louise fel Gwarchodwr Prosiect. Gyda'i gilydd, maent yn gweithio trwy'r nifer helaeth o gynlluniau sydd wedi cronni yn y casgliad, tua 8,000 yn ôl amcangyfrifon, gan nodi materion cadwraeth a llunio rhaglen glanhau a phecynnu gyda chymorth gwirfoddolwyr. Hyd yma maent wedi rhestru ac asesu 58% at ddiben cadwraeth, gan gynnwys y rheiny sy'n dangos gweithfeydd tanddaearol ac adeiladau ar yr wyneb. Mae'r gyfres ddiwethaf yn cynnwys cynlluniau o adeiladau megis baddondai pen pwll, tai gweithwyr, adeiladau gweinyddol a neuadd weithwyr. Ar hyn o bryd maent yn gweithio trwy gynlluniau o domenni glofeydd. Mae Louise hefyd tua traean o'r ffordd trwy gatalogio 5,440 o negatifau plât gwydr. Ymhlith y lluniau glofaol arferol ceir lluniau manwl o ystafelloedd gweithio, labordai, seremonïau a digwyddiadau cymdeithasol, gan gynnwys Côr Meibion Maesteg yn perfformio The Mikado mewn gwisg lawn.



Adroddir am gynnydd trwy ddiweddariadau rheolaidd ar gyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys blog sydd wedi archwilio amrywiaeth o bynciau, gan amrywio o 'Davies the Ocean' i Streic y Glowyr ym 1984/5. Mae Louise eisoes wedi cyhoeddi sawl erthygl sy'n hyrwyddo'r project yn y cylchgronau Who Do You Think You Are? a Local History News, Archives and Records Association Magazine ac yng nghyfnodolyn Cymdeithas Hanes Teulu Morgannwg. Rhoddodd hefyd gyflwyniad yn lansiad Cymru o'r ymgyrch Explore Your Archives yn 2017 a gynhaliwyd gan Archifau Morgannwg.

Mae gwirfoddolwyr yn rhoi o'u hamser i'r project. Mae un grŵp yn glanhau cyfrolau a chynlluniau ac mae un o'n myfyrwyr archif wedi rhestru papurau ariannol ac amrywiol y Bwrdd Glo Cenedlaethol. Mae Chris, Cynorthwy-ydd Cofnodion dros dro ar gynllun Contract Ieuenctid, hefyd yn cynorthwyo'r project trwy ymgymryd â gwaith rhestru, pecynnu a mynegeo.

Mae grantiau bach gan Lywodraeth Cymru trwy Gyngor Archifau a Chofnodion Cymru wedi galluogi paratoi catalogau i'w trosglwyddo i'r Hyb Archifau a chreu canllaw i ymchwilio i hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol mewn casgliadau archifau. Sicrhawyd arian hefyd i ddylunio ac argraffu taflenni newydd, i staff fynd i gynhadledd genedlaethol ac ar gyfer hyfforddiant mewn cadwraeth a chadw digidol. Derbyniwyd swm sylweddol o arian gan y Gronfa Beichiau Newydd, a weinyddir gan yr Archifau Cenedlaethol, o ran cynyddu'r broses o drosglwyddo cofnodion cyhoeddus o dan amodau'r Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus. Mae'r taliad ar gyfer rheoli'r symud i'r rheol 20 mlynedd sydd, yn ein hachos ni, yn golygu gofalu am 18.4 metr o gofnodion cyhoeddus yn 2016. Mae'r arian wedi talu am staff ychwanegol i drefnu a rhestru cofnodion crwneriaid er mwyn hwyluso'r broses o chwilio trwyddynt.





Yn ystod y flwyddyn, cafwyd 242 o dderbynion gwahanol. Roedd rhaid derbynebu, rhestru, pecynnu a storio pob un o'r rhain ac roedd angen gwaith glanhau neu gadwraeth ychwanegol ar lawer ohonynt. Daeth nifer o gasgliadau o ffotograffwyr, gan gynnwys ffotograffwyr proffesiynol o Gaerdydd, sef Robert Greetham a William Bryar, a chyfres ddiddorol o sleidiau gan yr amatur, Colin Atkins, sy'n dangos gwaith adeiladu Trosffordd Gabalfa yng Nghaerdydd yn y 1960au yn ogystal â Rhodfa'r Gorllewin a golygfeydd cyffredinol o'r ddinas. Mae casgliad prin o negatifau gwydr a grëwyd gan Kenneth Pennington yn gynnar yn yr 20fed ganrif yn cofnodi ei deulu, cydfilwyr yn ystod ei wasanaeth milwrol yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf gyda Magnelwyr Gwarchodlu Brenhinol Morgannwg a golygfeydd o Forgannwg.

Derbyniwyd hefyd sawl casgliad â thema gerddorol. Sefydlwyd Côr Merched y Barri yn y 1930au dan y teitl Côr Rheilffordd y Great Western. Cymerodd ran mewn sawl cystadleuaeth ac eisteddfod, gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol pan daeth honno i'r Barri ym 1968, ac mae'n perfformio'n lleol o hyd, gan godi arian at elusennau. Mae'r cofnodion, sy'n cynnwys cofnodion y côr, y llyfr cyrifon a dyddiaduron perfformiadau, yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 1948 a 2011.

Mae perfformiad o Gân Gŵyl y Barri, a adfywiwyd gan Simon Fenoulhet yn sgîl ei amser fel artist preswyl gyda Archifau Morgannwg, wedi cael ei adneuo. Perfformiwyd y darn gan gôr cymysg o bob oedran o'r Barri, wedi'i ffurfio gydag aelodau o Leisiau'r Fro, Côr Meibion y Barri ac eraill.

Roedd casgliad diddorol o ffotograffau a thystysgrifau'n darlunio gwaith May Selby (Davies gynt), athrawes gerddoriaeth o dde Cymru a aned ym Mhen-y-bont ar Ogwr ym 1891 ac a dderbyniodd sawl gwobr gan Goleg Cerddoriaeth Llundain rhwng 1903 a 1909. Roedd hi'n addysgu ac roedd hi'n hyrwyddwr cerddoriaeth brwd tan ei marwolaeth ym 1972. Derbyniwyd eitemau hefyd gan Gantorion Ardwyn Caerdydd, a chyfres o raglenni Cymanfa Ganu o gapeli yng Nghaerffili a Senghenydd.


Cafodd cryn nifer o adneuron eu trosglwyddo o awdurdodau lleol a'u rhagflaenwyr, gan ychwanegu at gasgliadau oedd wedi'u derbyn eisoes. Er enghraifft, parhaodd Cyngor Tref Porthcawl i gadw ei archif o gofnodion ac adroddiadau, sydd bellach yn ymestyn i'r 2000au, ynghyd â ffeiliau sy'n ymwneud ag amrywiaeth eang o swyddogaethau'r cyngor, gan gynnwys twristiaeth, traethau, rhandiroedd, goleuadau addurnol, cynllunio, addysg, etholiadau, adloniant a Phafiliwn y Grand. Mae'r teulu Tilley wedi chwarae rhan weithgar yn natblygiad y Bont-faen ers ymsefydlu yno yng nghanol y 19eg ganrif. Roedd sawl un yn aelodau'r cyngor a hefyd yn faer. Roedd adnau ychwanegol o gofnodion yn cynnwys llyfrau lloffion, ffotograffau a nodiadau hanesyddol.



Yn hwyr yn y 1990au ceisiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wella iechyd plant cyn-ysgol yn ogystal â'u gallu i ddysgu a'u datblygiad cymdeithasol trwy fuddsoddi mewn rhaglen Cychwyn Cadarn. Mae adroddiadau gwerthuso'r rhaglenni ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf, a luniwyd ym Mhrifysgol Morgannwg, wedi cael eu derbyn. Maent yn cynnwys gwerthusiadau o ymweliadau cartref, gofal plant, projectau cymorth ymddygiad a magu plant, projectau datblygu cymunedol a chyfweliadau â rhieni.

Adneuodd YMCA Pontypridd gasgliad sylweddol o gofnodion o'u blynyddoedd cynnar mewn lle uwchben siop yn Stryd Taf bron hyd heddiw. Roedd y YMCA yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau i bob ifanc gan gynnwys chwaraeon, clybiau crefft, darlithoedd a chyngherddau, lle bu Frankie Vaughan a Tom Jones yn perfformio ynddynt ar un adeg.

Rhoddwyd llyfr lloffion yn dangos gweithgareddau Clwb Menywod Busnes a Phroffesiynol Merthyr Tudful a'r Cylch. Wedi'i sefydlu ym 1970, roedd y clwb yn rhan o'r Ffederasiwn Cenedlaethol. Roedd pob clwb yn ethol ei swyddogion a'i bwyllgor gweithredol ei hun ac yn trefnu ei raglen ei hun o sgysiau a thrafodaethau grŵp astudiaeth. Naturiolaethwraig arloesol ac awdures bywyd gwyllt doreithiog oedd Dr Mary Gillham MBE. Ym 1959 roedd hi'n rhan o'r alldaith gyntaf i'r Antarctig i gynnwys menywod, ac yn 2008 dyfarnwyd MBE iddi am ei gwasanaethau i gadwraeth natur. Treuliodd lawer o flynyddoedd fel darlithwraig ym Mhrifysgol Caerdydd yn addysgu pobl am eu treftadaeth naturiol, a bu'n ymgyrchu'n ddiflino dros gadwraeth trwy gydol ei bywyd. Daeth ei harchif i ni o ganlyniad i broiect partneriaeth gyda Chanolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru.



Daeth casgliad bach diddorol arall o'r Athro Turner, aelod sefydlu'r Gymdeithas Brydeinig er Hanes Fferylliaeth, a oedd wedi adneuo eitemau o'r blaen. Mae'r derbyniad yma yn cynnwys pedair cofrestr presgripsiynau o fferyllfeydd yn Mhlas-y-Parc a Wellfield Road yng Nghaerdydd, ac yng Nghaerffili a'r Bont-faen. Gan ddyddio o'r 1920au i'r 1960au, mae'r cofrestri'n dangos yr arferion newidiol wrth gyflwyno presgripsiynau fferyllol ac yn cynnwys presgripsiynau milfeyddgol.

Roedd derbynion eraill yn ein hatgoffa o fantais catalogio ar-lein sy'n gallu rhoi cysylltiadau annisgwyl i ymchwilydd. Mae llyfr cyfrifon (1913-t.1922) gof cefn gwlad, David Jones o Holly House, Trelales, yn cynnwys ei waith ar gyfer ffermydd a boneddigion lleol megis R. L. Knight o Gwrt Llandudwg, ac mae cofnodion yr asiant tir, Robert Traherne Anson Rickards, yn rhoi manylion ei waith gydag ystadau lleol ger Pont-y-clun a Ffynnon Taf yn hanner cyntaf yr 20fed ganrif. Bydd yn hawdd olrhain unrhyw gofnodon sy'n gysylltiedig â'i gleientiaid trwy ddefnyddio Canfod, y catalog digidol ar ein gwefan.

Mae'n bwysig bod y casgliad yn adlewyrchu amrywiaeth ein cyfansoddiad o ran cymunedau budd yn ogystal ag ardaloedd daearyddol. Mae grwpiau cefnogi'n ffordd dda o ddechrau'r gynrychiolaeth hon. Eleni mae cofnodion wedi cael eu derbyn gan Grŵp Cymorth Caerdydd a'r Cylch i'r Rhai â Nam ar eu Clyw, Cymorth i Rieni Lesbiaid a Dynion Hoyw (SPLAG) a Christnogion LGBT De Cymru, a derbyniwyd deunydd ychwanegol gan Pobl yn Gyntaf Caerdydd a Chlwb Dydd Llun (Gateway) y Bont-faen, y ddau sefydliad yn cefnogi pobl gydag anabledd dysgu.

Yn olaf, dylid cofio bod archifau'n ymddangos mewn mannau annhebygol. Rhoddodd bwyty gasgliad mawr ac amrywiol o bapurau teulu a ddarganfuwyd yn ei dŷ allan. Mae archwiliad cychwynnol yn awgrymu ei fod yn ymwneud â dau deulu a oedd yn byw yn ardal Pont-y-gwaith rhwng 1880 a'r 1940au. Mae'r ffotograffau, y tystysgrifau ysgol Sul, y derbynebaw, y dyddiaduron a'r ohebiaeth yn destunau hanesyddol gwerthfawr. Y peth i'w gofio yw chwilio trwy'ch coelcerthi am ddraenogiaid a thrwy'ch atigau a'ch siediau am archifau.

Mae'n ymddangos bod y ffordd mae'r casgliad yn cael ei ddefnyddio'n newid. Eleni cafwyd 2,591 o ymweliadau â'r ystafell ymchwil, gostyngiad o'r llynedd, yn erbyn cyfanswm ymwelwyr o 7,391, gan gynnwys ymweliadau ysgol a grwpiau eraill ond hefyd pobl yn mynd i hyfforddiant nad oedd yn gysylltiedig â'r archifau. Mae'r defnydd o bell yn gyson gyda 3,494 o ymholiadau, yn ogystal â 284 o nodiadau diolch nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr ystadegau.

Daeth llawer o ymwelwyr fel rhan o grŵp, y mae 18 ohonynt wedi cael eu croesawu eleni: Cymdeithas Ddinesig Caerdydd, cangen Sili Cymdeithas Hanes Teulu Morgannwg, Cymdeithas Hanes Lleol Treganna a Glan-yr-afon, Cymdeithas Hanes Teulu Ystradgynlais, Sefydliad y Merched Radur, Cymdeithas Ddinesig Rhiwbeina, ymgynulliad y teulu Fletcher, grŵp theatr Avant Cymru, Syrcas No Fit State, Amgueddfa'r Bont-faen, Ymddiriedolaeth Innovate, U3A Caerdydd, U3A Tonyrefail, Every Link Counts Maesteg, Cymru dros Heddwch, Pobl yn Gyntaf Caerdydd, Cymdeithas Hanes Lleol Grangetown.

Mae myfyrwyr wedi cael eu croesawu o sawl adran ym Mhrifysgol Caerdydd.



Manteisiodd 23 dosbarth o 14 ysgol gynradd ar gynnig y gweithdy: Butetown, Grangetown, Llanisien Fach, Mount Stuart, Pont-y-clun, Sant Cuthbert, Thornhill, Ton-du a Threorci, a darperir sesiynau Cymraeg ar gyfer Ysgol Gymraeg Caerffili, Ysgol Gymraeg Penalltau ac Ysgol Pwll Coch, gyda digwyddiad dwyieithog yn cael ei gynnal ar gyfer Millbank. Roedd y disgyblion yn edrych ar y Fictoriaid, y ddau ryfel byd, glo a'r dociau, hanes lleol, a hanes eu hysgol. I ateb y galw, mae gweithdy newydd am y Tuduriaid a'r Stiwartiaid wedi cael ei ddatblygu. Gwnaethom gefnogi rhaglen "Prifysgol Radnor" Ysgol Gynradd Radnor lle daeth dosbarth ar ymweliad bob prynhawn dydd Gwener am 6 wythnos i archwilio cofnodion am eu hysgol a'u hardal leol. Mae cyfanswm o 644 o fyfyrwyr wedi ymweld eleni.



Ar 9 Tachwedd, Diwrnod yn Meddiannu Plant Mewn Amgueddfeydd ledled Cymru, cafodd lleoliad Archifau Morgannwg ei feddiannu gan ddisgyblion o Ysgol Arbennig y Deri ym Mhenarth. Cymerodd 11 o ddisgyblion 14-18 oed ran, gan weithio mewn grwpiau bach a phrofi pob maes y gwasanaeth, gan gwblhau tasgau catalogio, mynediad, cadwraeth a chynnwys y gymuned. Cafodd y disgyblion, staff yr ysgol a staff yr archifau bleser a budd o'r profiad. Gwnaeth un myfyriwr sylw ar gyfryngau cymdeithasol ar ôl y digwyddiad:

I would like to say a big thank you to everyone who done #takeoverday2017 It was a very good experience for me. I enjoyed myself and I learnt a lot from this. I would like to take the opportunity to say how grateful it was to meet some amazing staff members Very polite staff members. They were amazing. So yeah Thank you to you @glamarchives

Nododd swyddog pontio ôl-16 yr ysgol:

...we had a fab day – it was really well organised so thank you. [B's] mum actually had a tear when we said he would be joining us as she never imagined he would do anything work related...

Ers hynny, mae un o'r myfyrwyr wedi mynd ar leoliad profiad gwaith gyda ni, gan fynychu bob wythnos.



Yn gynharach yn y flwyddyn, mewn project peilot a oedd yn seiliedig ar y templed Plant yn Meddiannu llwyddiannus, gwnaeth aelodau o Bobl yn Gyntaf Caerdydd feddiannu Archifau Morgannwg. Mae Pobl yn Gyntaf yn ffederasiwn o grwpiau hunaneiriolaeth o bobl ag anabledd dysgu. Mae'r archifau wedi gweithio gyda changen Caerdydd ar nifer o brojectau llwyddiannus, yn aml mewn partneriaeth ag Amgueddfa Stori Caerdydd. Roedd yr aelodau a feddiannodd wedi ymweld â ni ymlaen llaw i gynllunio'r digwyddiad a thrafod agweddau'r rolau amrywiol oedd ar gael. Ar y diwrnod ei hun, roeddent yn gweithio yn yr ystafell chwilio, gan gynorthwyo'r cyhoedd a llunio dogfennau, glanhau dogfennau yn y stiwdio gadwraeth, meddiannu ffrydiau cyfryngau cymdeithasol, adnabod tafarnau Caerdydd mewn cyfres o ffotograffau a adnewwyd yn ddiweddar ac arwain teithiau o gwmpas yr adeilad i aelodau'r cyhoedd. Daeth 14 o bobl ar y teithiau, gan gynnwys Cyfarwyddwr Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan a chynrychiolydd Borough Market, Llundain, a oedd yn arsylwi ar y diwrnod wrth baratoi am gynnis HLF.



Roedd y diwrnod yn llwyddiant mawr ac wedi'i fwynhau gan Bobl yn Gyntaf Caerdydd a staff Archifau Morgannwg i'r un graddau. Yn dilyn y Diwrnod Meddiannu, cynhaliwyd cyfarfod gwerthuso i gasglu adborth gan y rhai a gymerodd ran. Fel project peilot, bydd yr adborth hwn yn cyfeirio'r broses o gyflwyno cysyniad y Diwrnod Meddiannu ar draws Cymru. Mae Rhian Diggins, Uwch Archifydd, wedi cefnogi aelodau Pobl yn Gyntaf Caerdydd wrth hyrwyddo'r digwyddiad i ganghennau eraill y sefydliad yng Nghymru yn eu cynhadledd genedlaethol ac yn Fforwm Archifau Cymru.


Roedd y rhaglen digwyddiadau'n cynnwys sgwrs gyhoeddus am Hughesovka i nodi Chwyldro Mis Hydref 1917. Mae sgwrsiau eraill wedi ystyried effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar fenywod yn ne-ddwyrain Cymru, troseddu yng Nghaerdydd o'r 19eg ganrif, tafarn y Grange, meddyg glofa o'r Rhondda o'r enw Henry Naunton Davies ac ymchwilio i hanes LGBT. Cyflwynwyd un sgwrs yn Gymraeg gyda darpariaeth cyfieithu ar y pryd, sef Y Gwrthwynebiad i Ryfel yng Nghaerdydd, 1916-18. Rydym yn ddiolchgar i'n siaradwyr allanol, Aled Eirug, Caroline Fairclough, Ceri Thompson, Steve Duffy, John Wake, Norena Shopland a Dr Daryl Leeworthy.

Cynhaliwyd chwe arddangosfa, fel arfer mewn cysylltiad â dathliadau i nodi digwyddiad. Bu Dusty's War yn archwilio effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar gymunedau yng Nghaerau a Threlái. Dechreuodd arddangosfa Ysbyty Trelái newydd Pobl yn Gyntaf Caerdydd yma ym mis Gorffennaf; mae'r arddangosiad rhyngweithiol yn adlewyrchu ymchwil a wnaed gan aelodau i'r hen ysbyty arhosiad hir. Dathlodd Chronicle ganrif o wirfoddoli yng Nghaerdydd. Bu Icons and Allies gan Pride Cymru'n cofnodi gweithgaredd LGBT Cymru yn y 50fed flwyddyn ers dad-droseddoli gwrywgydiaeth yn rhannol, a nododd Safe and Legal 50 mlynedd o weithgaredd hawliau erthylu yn y rhanbarth. Cafodd y ddau olaf hyn eu coffáu hefyd yn Ysgol Undydd Llafur, "50 mlynedd o ryddid i fenywod a hoywon", a gynhaliwyd yn yr archifau. Daeth y flwyddyn i ben ym mis Chwefror, Mis Hanes LGBT, gyda "Celebrating LGBT Cardiff", a grëwyd gan Norena Shopland.



Lansiwyd Explore Your Archives yng Nghymru ym Morgannwg gyda sgwrs gan Mari Grug o Heno ar drowynt de Cymru, gan ddangos yr amrywiaeth o ddeunydd y gellir dod o hyd iddo mewn archifau ym mhob man.

Cafwyd cryn ddiddordeb mewn John Hughes a Hughesovka fel y disgwyl o ystyried mai canmlwyddiant Chwyldro Rwsia oedd 2017. Arweiniodd partneriaeth ar y cyd â Dr Victoria Donovan o Brifysgol St Andrews at sgysiau am y drefedigaeth ddiwydiannol Gymreig yn y Donbas a gyflwynwyd yn St Andrews ac ym Merthyr Tudful. Ym Merthyr, roedd Enthusiasm, a gynhaliwyd yn y Red House, yn ddigwyddiad celf rhyngddisgyblaethol o sgysiau, ffilm, cerddoriaeth fyw, arddangosiadau coginio ac arddangosfeydd i ddathlu hanes ymfudo'r dref a'i chysylltiadau ag Wcrain.



Mae newyddiadurwyr o Wcrain wedi bod mewn cysylltiad i geisio cymorth ar gyfer projectau treftadaeth, trafododd ymchwilydd lleol ei erthygl am gyswllt Khrushchev â'r dref ac mae'r archifau wedi hwyluso rhoi benthg portread John Hughes i Amgueddfa'r Ruhr ar gyfer arddangosfa bwysig i nodi cau'r pwll glo dwfn olaf yn yr Almaen yn 2018.



Caiff y tasgau hanfodol o gatalogio, allgymorth a hyrwyddo'r gwasanaeth eu cefnogi gan griw ffyddlon o wirfoddolwyr sy'n cydweithio â staff i wneud y casgliad yn fwy hygyrch trwy fynegio, trawsysgrifio, digideiddio, glanhau ac ysgrifennu erthyglau blog ar gyfryngau cymdeithasol. Eleni gweithiodd ein gwirfoddolwyr 7,388 o oriau. Mae lleoliadau profiad gwaith yn ychwanegol at y rhain ac mae 4 myfyriwr a oedd ar leoliad gwaith gynt wedi cael eu derbyn ar gyrsiau hyfforddiant archifau. Ar ôl 4 blwyddyn hir, cwblhawyd y project i restru bron 16,000 o gynlluniau rheoliadau adeiladu Cyngor Dosbarth Trefol y Rhondda gyda chryn ddathlu, diolch i'r gwirfoddolwyr Barry, Fred a Mark. Mae'r rhestr bellach ar gael ar ein catalog ar-lein, Canfod. Mae gwirfoddolwyr eraill yn glanhau ac yn mynegeo Cytundebau Criw porthladd Caerdydd ar gyfer y Project Mynegeo Rhestri Criwiau Cenedlaethol, ac mae aelodau Cymdeithas y Celfyddydau (NADFAS gynt) yn glanhau cyfrolau'r Bwrdd Glo Cenedlaethol fel rhan o broject Ymddiriedolaeth Wellcome. Mae recriwt newydd wedi dechrau glanhau cynlluniau'r Bwrdd Glo Cenedlaethol gyda'r Gwarchodwr Project.

Mae mwy o wybodaeth am waith ein gwirfoddolwyr a'n staff, gan gynnwys rhestri llawn o dderbynion a gafwyd, ar gael yn yr adroddiadau i Gydbwyllgor Archifau Morgannwg ar wefan Cyngor Caerdydd.



Mae'n ymddangos eisoes y bydd 2018 yn flwyddyn brysur a llwyddiannus i'r gwasanaeth gyda phrojectau partneriaeth newydd pwysig ar fin dechrau a phartneriaid projectau blaenorol yn cynllunio cyfranogiad parhaus. Mae cyllid yn brin ond mae'r staff yn dda wrth ddod o hyd i gyfleoedd i leihau gwariant a chynyddu incwm, sy'n sgil angenrheidiol erbyn hyn gan fod rhaid dod o hyd i ychydig dros 22% o'r gyllideb uwchben cyfraniadau'r awdurdod lleol i gynnal safonau gwasanaeth presennol. Diolch i'n holl gefnogwyr sy'n parhau i gredu ynom ni. Rydym yn symud ymlaen gan ddilyn argyhoeddiad Nelson Mandela ei fod bob amser yn ymddangos yn amhosibl nes iddo gael ei wneud.

Susan Edwards
Archifydd Morgannwg





	Archifau Morgannwg Clos Parc Morgannwg Caerdydd CF11 8AW		029 2087 2200
	Glamro@caerdydd.gov.uk		www.facebook.com/glamarchives
	www.archifaumorgannwg.gov.uk		@GlamArchives